# Mynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn ceffylau addas, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â mynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn ceffylau addas, o dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn cynnwys mynd ar gefn ceffyl o'r ddaear neu o esgynfaen. Mae hefyd yn cynnwys addasu gwartholion a chenglau. Mae'n berthnasol i'r rheiny sydd yn gysylltiedig ag ymarfer ceffylau addas fel mater o drefn mewn cyfrwy.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl a'i arwain i'r ardal ofynnol, yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. clymu a rhyddhau ceffylau yn unol â chyfarwyddiadau
4. gwneud y gwiriadau diogelwch priodol ar harneisiau ac offer, o dan oruchwyliaeth
5. mynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn ceffylau addas yn gywir, o dan oruchwyliaeth
6. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. sut i ymdrin â cheffylau, eu clymu a'u rhyddhau yn ddiogel
4. sut i adnabod anesmwythdra mewn ceffylau wrth fynd ar eu cefn a disgyn oddi ar eu cefn
5. ystyriaethau diogelwch ar gyfer y ceffyl, chi eich hun ac eraill wrth fynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn ceffylau
6. y gwiriadau a'r paratoadau ar gyfer harneisiau ac offer cyn mynd ar gefn ceffyl, yn cynnwys gwirio'r cenglau, tynnu'r gwartholion i lawr cyn mynd ar gefn y ceffyl a rhoi'r ffrwynau dros ben y ceffyl
7. effaith mynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn y ceffyl i'r ceffyl
8. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid.

## Geirfa

Offer amddiffynnol:

- het
- menig
- esgidiau uchel
- dillad addas ar gyfer y gweithgaredd

LANEq109

Mynd ar gefn a disgyn oddi ar gefn ceffylau addas, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq109 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; mynd ar gefn; disgyn oddi ar gefn; gwartholion; cenglau; cyfrwy; ffrwynau |